CYNGOR GWYNEDD

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cais am dystiolaeth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

3/3/2017

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r cyfle i ddechrau cyfrannu i'r broses o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Gweler ein sylwadau ar gyfer y cam yma yn y broses isod.

1 Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Credir bod angen i'r FfDC gael ei lunio i gefnogi gwireddu gweledigaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gellir gweld dogfen "Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru" yn <http://www.northwaleseab.co.uk/?lang=cy>

2 Wrth wneud hynny mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau bod y FfDC yn adlewyrchu bod Cymru yn wlad amrywiol. Dylid sicrhau bod y strategaeth ofodol yn rhoi fframwaith hyblyg ar gyfer twf a datblygiad cynaliadwy, sy'n adlewyrchu asedau amrywiol lleoedd nodedig yn y wlad. Bydd hynny yn rhoi'r llwyfan i awdurdod lleol neu grŵp o awdurdodau lleol barhau i adnabod atebion lleol i faterion pwysig mewn cynlluniau datblygu strategol a/ neu leol.

3 I gefnogi gwireddu gweledigaeth y Bwrdd Uchelgais credwn y dylai'r FfDC ganolbwyntio ar greu a chynnal swyddi gwerth uchel o fewn sectorau blaenoriaeth a'u cadwyni cyflenwi gan ddatblygu ardaloedd o gyfle penodol megis y parthau menter. Law yn llaw a chynyddu'r nifer o swyddi gwerth uchel, dylid cefnogi'r sectorau sy'n cynnal ein hardaloedd gwledig, megis twristiaeth a bwyd ac amaeth, i gynyddu gwerth eu gweithgaredd a'r gyflogaeth maent yn ei gynnig.

4 Mae nifer fawr o bobl yn byw mewn dinasoedd a threfi mawr yng Nghymru sydd wedi eu lleoli ar y cyfan yn Ne Cymru a Dwyrain Cymru, lle gwelir y mwyafrif o'r gweithgarwch economaidd. Er hynny, mae'n bwysig bod y FfDC yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd gwledig, sydd wedi eu lleoli yng Ngorllewin Cymru a'r canolbarth, i gyfrannu at wireddu nodau Llywodraeth Cymru. Credir ei bod hi'n bwysig cofio nad ydi cymuned anfantais yn fater trefol yn unig, ond yn un sydd yn dod â heriau mewn ardaloedd gwledig hefyd. Felly, mae'n hanfodol bod y strategaeth genedlaethol yn cydnabod anghenion gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, ac yn manteisio ar eu cyfleoedd. Mae gan drefi a phentrefi gwledig rôl gyfunol sy'n bwysig yn genedlaethol, yn ogystal â'r asedau naturiol a diwylliannol. Ar sail hynny, hyderwn bydd y FfDC yn mynegi sut fydd Llywodraeth Cymru am hwyluso datblygiadau a fydd yn gwireddu ei weledigaeth ar gyfer Cymru wledig.

5 Mae gweddill yr ymateb yn cyfeirio at faterion sydd yn bwysig i Wynedd ac yn debygol o fod yn gyffredin i rannau eraill o Gymru, ac felly angen sylw yn y FfDC. Pan yn ymarferol defnyddir y ffurflen safonol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at dystiolaeth a phrosiectau penodol.

Amgylchedd

6 Mae ansawdd golygfaol tirweddau Cymru yn adnodd ysblennydd, sy'n cyfrannu yn sylweddol at ansawdd bywyd, hunaniaeth ddiwylliannol a'r economi ymwelwyr. Mae ansawdd a natur eiconig yr amgylchedd adeiledig hefyd yn chwarae rôl allweddol yn dangos diwylliant unigryw ac yn atgyfnerthu delwedd Cymru yn rhyngwladol. Mae bioamrywiaeth, tirwedd ac arfordir Cymru, trwy'r safleoedd a ddiogelir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, yn dangos bod angen parhau i'w amddiffyn. Mae cynnal amgylchedd adeiledig a naturiol o ansawdd uchel a chreu lleoedd newydd sydd yn hynod, iach a chynaliadwy yn hanfodol os yw Cymru yn mynd i gystadlu mewn economi byd eang modern lle mae pobl a chyfalaf i'll dau yn graff ac yn symudol iawn.

7 Mae'r map yn Atodiad 1 yn dangos bod gan Wynedd gyfoeth o asedau naturiol a diwylliannol sy'n cefnogi ansawdd bywyd y cymunedau, yr economi a'r sectorau allweddol megis twristiaeth a bwyd ac amaethyddiaeth yn arbennig. Felly, yn ogystal â hwyluso mwy o swyddi gwerth uchel yn y sector ynni, digidol, creadigol ac ymchwil a datblygu, dylai'r FfDC gefnogi sectorau sy'n cynnal ein hardaloedd gwledig hefyd.

8 Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 - 2020 wedi adnabod gall Cymru ennill y blaen ar ein cystadleuwyr mewn pum maes: yr amgylchedd naturiol, treftadaeth a diwylliant, gweithgareddau ac antur, gwyliau a digwyddiadau, cyrchfannau unigryw. Gallai'r FfDC dynnu sylw at ardaloedd fel y Parc Cenedlaethol, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Eryri: Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, Academi Hwylio a Digwyddiadau Pwllheli, bothau eraill ar gyfer chwaraeon awyr agored, Safleoedd Treftadaeth y Byd, a chyrchfannau ymwelwyr. Byddai hyn yn fodd o adeiladu ar gryfderau cynhenid megis ein diwylliant, treftadaeth a'n hamgylchedd a rhoi sylw penodol i gefnogi busnesau i dargedu marchnadoedd rhyngwladol. Mae rôl allweddol gan y FfDC yn sicrhau fod isadeiledd i alluogi hyn i ddigwydd yn cael ei ddarparu.

Cymunedau carbon isel

9 Mae Llywodraeth Cymru yn hybu cynhyrchu a defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ffynonellau rhad-ar-garbon ar bob graddfa, a hybu defnyddio ynni'n effeithlon, yn enwedig fel ffordd o sicrhau datblygiadau di-garbon neu rad-ar-garbon ac i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd. Mae yna gyfleoedd yn dod o'n hadnoddau naturiol sylweddol. Mae angen amrywio'r sector ynni. I gyd-fynd a gofynion Polisi Cynllunio Cymru diweddarwyd gwaith a oedd wedi cael ei wneud yn barod er mwyn adnabod galw am ynni a'r cyfleoedd cyflenwad ynni adnewyddadwy posibl ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Ceir mwy o wybodaeth am gasgliadau'r gwaith yma mewn ffurflen safonol yn Atodiad 2 i'r papur yma. Credir bod hwn yn un o'r materion allweddol ddylai dderbyn sylw yn y FfDC.

10 Nid yn unig bod yr ucheldiroedd yn gynefin pwysig ar gyfer bywyd gwyllt ond mae'n ystorfa carbon arwyddocaol sydd angen ei gydnabod a'i gynnal.

11 Bydd dibyniaeth ar y car yn dal yn bwysig mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd a bydd darparu fframwaith i hyrwydd cyfleoedd i fyw a gweithio yn lleol yn ffordd o leihau ôl troed carbon cymunedau gwledig, ac yn ei dro ol troed carbon Cymru.

Economi

12 Mae Cyngor Gwynedd yn credu mai rôl ganolig y sector gyhoeddus ydi bod yn alluogwr i ddatblygu'r economi. Dylid creu amodau cywir i sicrhau bod pob rhan o Gymru yn ffynnu yn sgil buddsoddiad mentrau cynhenid a mewnfuddsoddwyr: gwasgaru twf yn hytrach na'i ganoli pob tro yn ninasoedd a threfi mawr y wlad. Yr allbwn fydd cynnal a chreu cyflogaeth ac felly cynyddu cyfoeth ein dinasyddion i gyd.

13 Fel nodwyd uchod mae Cyngor Gwynedd yn perthyn i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Mae o am ddangos bod yr ardal yn un gwerth chweil i fuddsoddi ynddo ac am hyrwyddo'r isadeiledd ychwanegol angenrheidiol i wneud hynny. Mae'r Bwrdd eisoes yn trafod ei flaenoriaethau ar gyfer gwireddu'r weledigaeth gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac bydd rol bwysig i'r FfDC yn hwyluso'r cynlluniau gan sicrhau fod swyddi gwerth uchel yn cael eu creu a'u cynnal ledled y Gogledd, gan ddatblygu ardaloedd o gyfle penodol megis y parthau menter.

14 Mae Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru wedi adnabod nifer o sectorau blaenoriaeth sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer twf oherwydd manteision cystadleuol neu'r potensial i gyfalafu ar asedau naturiol. Credir y dylai'r strategaeth ofodol yn y FfDC gefnogi'r sectorau yma lle mae'n bosib gwneud hynny, gan roi sylw i'r llefydd sydd yn arbennig o bwysig i bob un. Wrth wneud hynny awgrymir bod gwaith paratoi'r FfDC yn rhoi sylw hefyd i strategaeth aneddleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol a, lle'n briodol, cynlluniau datblygu strategol, er mwyn gweld os oes angen nodi rhai aneddleoedd ynddo. Yn debyg i'r Cynllun Gofodol credir bod cyfle i'r FfDC adnabod a disgrifio rol rhwydwaith o aneddleoedd mewn ardaloedd gwledig sydd yn gweithredu neu all weithredu fel bothau ("hubs") allweddol i'r cymunedau o'u cwmpas yn ystod oes y FfDC. Wrth wneud hynny, bydd y FfDC yn hwyluso gwasgariad twf i gefn gwlad ehangach.

15 Gall y FfDC chwarae rhan bwysig i gefnogi'r blaenoriaethau a welir yn y ddogfen, sy'n cynnwys cefnogi buddsoddiad yn ym Mharth Menter Eryri a Pharth Menter Môn. Fe all y FfDC adnabod y prosiectau sy'n gysylltiedig â safleoedd Parth Menter Eryri fel prosiectau sydd yn bwysig i ranbarth Gogledd Cymru, ond sydd hefyd yn bwysig ar lefel cenedlaethol. Mae Maes Awyr Llanbedr yn cael ei hyrwyddo ar gyfer y sector awyrofod, ac mae safle Atomfa Trawsfynydd yn cael ei hyrwyddo ar gyfer datblygiad pwerdy SMR. Rhoddir mwy o wybodaeth am y ddau brosiect yma ar ffurf y ffurflenni safonol yn Atodiad 3 i'r ymateb yma.

16 Eto fel a nodwyd yn flaenorol; law yn llaw a chynyddu'r nifer o swyddi gwerth uchel, dylid cefnogi'r sectorau sy'n cynnal ein hardaloedd gwledig, megis twristiaeth a bwyd ac amaeth, i gynyddu gwerth eu gweithgaredd a'r gyflogaeth maent yn ei gynnig. Mae'r meysydd yma'n allweddol i gynnal gwaith ar draws ein cymunedau a dylid annog mentergarwch o fewn y sectorau, a chefnogi busnesau i gynyddu gwerth eu gweithgaredd, gan adeiladu ar gryfderau cynhenid megis ein diwylliant, treftadaeth a'n hamgylchedd a rhoi sylw penodol i gefnogi busnesau i dargedu marchnadoedd rhyngwladol.

17 Cydnabyddir pwysigrwydd yr economi yng nghyswllt cynaladwyedd cymunedau. Gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad 2011 yn tystio i leihad mewn niferoedd siaradwyr Cymraeg mae'n bwysig fod y cyswllt rhwng economi a hyfywedd cymunedau Cymraeg yn cael ei gydnabod yn y FfDC. Mae gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog yn creu peuoedd ieithyddol lle mae modd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio a gwella eu sgiliau ieithyddol. Yn ogystal mae tystiolaeth y gall y Gymraeg gefnogi twf yr economi yng Nghymru, er enghraifft trwy roi pwynt gwerthu unigryw i wneuthurwyr a gwerthwyr. Mae'n bwysig fod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio'n gyson oddi fewn i strategaethau a chynlluniau gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Dylai'r FfDC gyfrannu tuag at feithrin cymunedau Cymraeg drwy hwyluso safleoedd datblygu economaidd sydd yn gynaliadwy ac sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Cysylltedd ac Isadeiledd

18 Mae cysylltiadau a seilwaith trafnidiaeth yn allweddol i ddyfodol llwyddiannus ar gyfer cymunedau ledled Cymru. Mae buddsoddiadau pwysig megis ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yn anelu at leihau tagfeydd a chefnogi ansawdd yr amgylchedd o fewn nifer o aneddiadau ar hyd yr A487 yng Ngwynedd. Yn ychwanegol i hynny, bydd yn darparu gwell cyswllt rhwng de Cymru a Gogledd Cymru, gwell cyswllt rhwng aneddleoedd gorllewin Gwynedd â choridor yr A55, ac yn darparu gwell cyswllt rhwng de Gwynedd a chyfleoedd am swyddi, megis y rheini i'w darparu yn Wylfa Newydd. Bydd gwella ffyrdd yn cael effaith gadarnhaol felly ar y cyfleoedd am swyddi sydd ar gael i'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn y Gogledd-orllewin Gwynedd, sy'n golygu gall pobl ifanc aros yn yr ardal.

19 Mae'r prosiect yma yn un o'r ymyriadau gwelliannau ffyrdd sydd wedi cael eu hadnabod yn y "Cynllun Isadeiledd Strategol ar gyfer Gogledd Cymru" sy'n cefnogi gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac mae'n rhan o Gynllun Trafnidiaeth

Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect yma yn y ffurflen safonol sydd yn Atodiad 4 i'r papur yma. Yn ogystal a'r gwelliannau i'r A487 mae'r Cynllun Isadeiledd yn adnabod casgliadau dechreuol yr Achos Busnes Strategol Amlinellol ar gyfer 3ydd pont ar draws Y Fenai. Nodir bod bwriad gan Lywodraeth Cymru i edrych i mewn i opsiynau posib ar gyfer llwybr y 3ydd pont, a fyddai yn fuddsoddiad i'w hyrwyddo yn y FfDC.

20 Tynnir sylw hefyd at awydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer gwelliannau gwasanaethau rheilffordd a chysylltedd gyda'r HS2 yn hwb Crewe. Mae'r cynigion i wella yn cynnwys trydaneiddio'r rhwydwaith yn allweddol. Credir gallai'r FfDC adnabod hwn fel datblygiad cenedlaethol oherwydd ei rôl i sicrhau bod twf yn cael ei ddosbarthu a'i ledaenu er budd cymunedau amrywiol.

21 Mae cysylltedd nid dim ond yn golygu symudiad corfforol, ond hefyd cysylltiadau rhithwir. Mae cysylltiadau band eang symudol a sefydlog o ansawdd uchel wedi dod yn hanfodol i gefnogi cymunedau a datblygiad busnes mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'n sbardun ar gyfer datblygiad economaidd, gwella cynhyrchiant a gyrru datblygiad newydd. Mae cysylltedd, sefydlog a symudol, yn ganolig i ddatblygiad llwyddiannus rhai sectorau. Mae cysylltedd digidol da hefyd yn newid dealltwriaeth o beth yw cymunedau cynaliadwy. Mae gan delathrebu o ansawdd uchel rôl hanfodol i chwarae hefyd o ran hyrwyddo'r Gymraeg

22 Y rhaglen Cyflymu Cymru yw'r buddsoddiad pwysicaf yn hanes Llywodraeth Cymru. Mae o eisoes yn trawsnewid argaeledd bandeang cyflym gan sicrhau bod cartrefi a busnesau yn gallu derbyn gwasanaeth bandeang cyflym. Ond, bydd angen parhau i fuddsoddi i gynyddu bandeang uwchgyflym a bandeang symudol. Credir dylid adnabod rhwydwaith ddigidol fel prosiect cenedlaethol yn y FfDC er mwyn gwella cystadleuaeth, gan sicrhau nad oes unrhyw raniad digidol rhwng ardaloedd gwledig a threfol neu Ogledd Cymru a De Cymru.

Dosbarthiad newid

23 Credir fod yn bwysig i'r FfDC gefnogi datblygu a chynnal busnesau yng nghefn gwlad drwy annog datblygu unedau gwaith (unigol ac ar y cyd) ac unedau byw/gwaith priodol yn ein pentrefi a threfi gwledig ar raddfa briodol. Bydd hyn yn gallu cefnogi bywiocau ein haneddleoedd, gan eu hatgyfodi yn lleoliadau i drigolion fyw a gweithio a lleddfu'r tuedd iddynt fod yn fannau byw yn unig. Nid chredir bod datblygu yng nghefn gwlad yn ehangach bob tro yn anghynaladwy ac mewn rhai mannau bydd angen cydbwyso clystyru i gyflawni amcanion carbon isel yn erbyn budd parhaus patrymau datblygu gwasgaredig hir sefydlog. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dangos yr angen am bolisïau datblygu tai a llefydd gwaith mewn cynlluniau datblygu lleol i ymateb i'r lefelau amrywiol o bwysau mewn mathau gwahanol o ardaloedd.

24 Mae anawsterau o ran sicrhau cyllid ers y dirywiad economaidd wedi arwain at lefelau datblygu tai yn llawer is na'r disgwyl. O ganlyniad, yn ogystal ag ymateb i dwf hirdymor yn y boblogaeth, a thwf cartrefi yn benodol, mae angen cynnydd sylweddol mewn cyfraddau adeiladu tai i sicrhau y bodlonir gofynion tai ar draws y wlad. Mae angen dybryd cenedlaethol i'r system cynllunio i helpu i sicrhau twf yn y cyflenwad o gartrefi newydd, yn arbennig tai fforddiadwy. Credir mai'r system cynllunio yn gweithredu ar lefelau rhanbarthol a/ neu leol nid y FfDC ddylid penderfynu ar y lefelau o angen a galw am gartrefi newydd, ac i nodi safleoedd addas ar gyfer tai newydd. Er na all y system cynllunio, ar ei ben ei hun, datrys yr anawsterau mae datblygwyr tai yn eu hwynebu wrth sicrhau cyllid, gall y FfDC chwarae ei ran yn sicrhau bod seilwaith (gan gynnwys dŵr a charthffosiaeth) yn cyd-fynd â datblygiad arfaethedig yn well yn ogystal â hwyluso dulliau mwy hyblyg o gael mwy o

unedau tai gwledig mwy fforddiadwy, yn arbennig os yw'n helpu cynnal cymunedau gwledig bregus.

Cymunedau a'r iaith Gymraeg

25 Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae cryn wahaniaeth rhwng cyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y gwahanol gymunedau, yn amrywio o lai na 6% i fwy nag 85%. Amcangyfrifir bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn gadael Cymru bob blwyddyn. Mae'r strategaeth drafft, a fydd yn disodli Iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017, yn gosod targed i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd y nod yma mae'n rhaid cael ymyriadau ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

26 Cydnabyddir bydd dyfodol y Gymraeg ledled Cymru yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau: addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Mae ein sylwadau uchod eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd creu swyddi i gynnal cymunedau a'r economi a'r budd o wneud hynny i gefnogi'r iaith Gymraeg. Mae ein sylwadau wedi tynnu sylw at sawl maes arall fyddwn yn hoffi i'r FfDC roi sylw iddo sydd a'r potensial i gefnogi'r iaith Gymraeg. Nodir bydd datblygiad y FfDC yn cael ei ddylanwadu gan Asesiad o Gynaliadwyedd (AoG). 'Roedd drafft diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol 20 a gafodd ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd yn nodi byddai'r AoG o'r FfDC yn cynnwys asesiad o'i effaith debygol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hynny i'w groesawu. Mae AoG Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cynnwys asesiad o'i effaith ar y Gymraeg ac fe gafodd yr AoG ei oleuo gan Asesiad Ieithyddol. Cyfeiriwn ni chi at yr adroddiadau am yr Asesiad Ieithyddol yn Llyfrgell Archwiliad y Cynllun yn https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Dogfennau-Archwiliad-Cyhoeddus.aspx (o dan y pennawd Adroddiadau Arfarnu CDLL.011 – CDLL.013), rhag ofn byddant o gymorth i chi. Mae'n debyg, hefyd, gallai'r Fframwaith Asesu a Rheoli Risg i Hyfywedd y Gymraeg sydd wrthi'n cael ei lunio gynorthwyo i sicrhau fod seiliau cadarn ar gyfer asesu effaith debygol y FfDC ar fywiogrwydd y Gymraeg.

Sylwadau cloi

27 Hyderwn y bydd y wybodaeth uchod a'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffurflenni safonol sydd yn yr Atodiadau o ddiddordeb ac o ddefnydd. Edrychir ymlaen at gymryd rhan yng nghamau nesaf o'r broses.

Ffurflen Cyflwyno Tystiolaeth - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	
Enw	Cyngor Gwynedd
Manylion cyswllt	Nia Haf Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio
Dyddiad	
Teitl y dystiolaeth	Cyfleoedd ynni adnewyddadwy
Crynodeb o'r dystiolaeth	Adroddiadau sy'n rhoi trosolwg o'r galw am ynni a'r cyfleoedd cyflenwad ynni adnewyddadwy posibl ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r gwaith wedi dilyn Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru 2010 ac yna 2015. Datblygwyd amrywiaeth o senarios credadwy ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Ngwynedd (ac Ynys Môn) rhwng 2016 ac 2026[1]. Defnyddiwyd astudiaethau am sensitifrwydd a chapasiti'r tirwedd[2] yn ogystal a gwybodaeth am ystyriaethau eraill i roi argymhelliad ynglyn a dynodi safleoedd penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon[3].
Crynodeb o'r materion pwysicaf/ y casgliadau	'Rydym yn glir bod angen i ddatblygiad weithio gydag a chynnal ein asedau amgylcheddol. Mae cyfuniad o'r astudiaethau wedi adnabod, ar lefel uchel, ardaloedd posib ar gyfer lleoli ffermydd PV solar. Ar sail sensitifrwydd a chapasiti'r

[1] Cyfleoedd ynni adnewyddadwy - Hysbysu targedau ynni adnewyddadwy (Tachwedd 2016) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-r-Archwiliad/Pwyntiau-Gweithredu/S8-Ynni-Adnewyddol---Pwyntiau-Gweithredu-1-i-8.pdf

[2] Astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r tirwedd (Mawrth 2014) ac adendwm iddo (Mehefin 2016) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Astudiaeth-Sensitifrwydd-a-Chapasiti-y-Tirwedd-(DC.020).pdf & https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-r-Archwiliad/DA017.pdf

[3] Asesiad o'r potensial am ffermydd PV solar yng Ngwynedd ac Ynys Môn (Gorffennaf 2016) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-r-Archwiliad/DA020b.PDF & Adendwm i Asesiad o'r potensial am ffermydd PV solar yng Ngwynedd ac Ynys Môn (Tachwedd 2016) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-r-Archwiliad/Pwyntiau-Gweithredu/S8-Ynni-Adnewyddol---Pwyntiau-Gweithredu-1-i-8.pdf

	tirwedd nid oes safleoedd posib ar gyfer lleoli ffermydd gwynt wedi cael eu hadnabod. Trwy ddefnyddio polisïau cynllunio meini prawf gall technolegau eraill tyrbinau gwynt, ynni hydro, treuliad anerobig, ynni o wastraff, biomas a llanw sicrhau bod Gwynedd yn cyfrannu at gyrraedd targedau cenedlaethol.
Pam ydych chi wedi cyflwyno'r dystiolaeth hon?	Cyfle i gadarnhau sut all y system gynllunio chwarae rôl i wireddu'r nod cenedlaethol o drawsnewid i economi carbon isel, gan elw o'n manteision naturiol pwysig. Mae'n mynd i gyfeirio isadeiledd i leoliadau priodol. Mae gweithio yn unol a'r Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru 2015 yn mynd i sicrhau dull cyson a grymus ar draws Cymru o adnabod galw am ynni a'r cyfleoedd cyflenwad ynni adnewyddadwy.
Sut ddylai'r dystiolaeth hon gyfrannu at ddatblygiad y FfDC?	Gweler y sylw ynglyn a defnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru, h.y. sicrhau bod unrhyw gyfeiriad cenedlaethol yn un sydd wedi ei selio ar sail dystiolaeth gadarn.
Sut mae'r dystiolaeth hon ac unrhyw weithredoedd y mae'n eu hargymell yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant?	Mae'n mynd i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo datblygiad a fydd yn cyfrannu at drawsnewid cymunedau i rai carbon isel. Mae hynny'n hanfodol i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddai datblygiad yn unol a'r dystiolaeth a pholisïau cynllunio yn gymorth hefyd i gyfarch ymrwymiadau rhyngwladol.
Pam mae'r dystiolaeth o arwyddocâd cenedlaethol?	Mae o arwyddocâd cenedlaethol oherwydd ei fod yn creu amgylchiadau i hyrwyddo datblygiad sy'n mynd i gyfrannu i gyfarch targedau cenedlaethol (a rhyngwladol) i daclo newid hinsawdd.
Ydych chi'n cytuno i'ch gwybodaeth gael ei chyhoeddi? **(Dim ond tystiolaeth y gellir ei chyhoeddi ail gyfrannu at ddatblygiad y FfDC)**	Ydw

Ffurflen Cyflwyno Prosiectau – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	
Enw	Canolfan Awyrofod Eryri, Maes Awyr Llanbedr, Gwynedd
Manylion Cyswllt	Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd
Dyddiad	
Diddordeb yn y safle	Y cyfle i greu cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ar un o safleoedd mwyaf arwyddocaol y Sir
Manylion perchennog y tir	Safle wedi'i lesu (les 125 o flynyddoedd) gan Lywodraeth Cymru i gwmni Snowdonia Aerospace
Teitl y prosiect	1– Gwelliannau safle i alluogi creu canolfan ragoriaeth ar gyfer Treialu Systemau Awyr o Bell (RPAS) 2 - Gwelliannau i'r safle er mwyn galluogi ei ddefnydd fel Porth Gofod 3 - Ffordd fynediad newydd i'r safle er mwyn hwyluso'r gwelliannau uchod 4 - Gwaith i'r amgylchedd sy'n ffinio â'r safle er mwyn galluogi gweithrediadau diogel o'r defnydd uchod
Crynodeb o'r prosiect	1 a– Cyfres o welliannau i alluogi trwyddedu CAA o'r maes awyr, gan gynnwys (rhestr ddangosol): - Cyfleusterau/offer rheoli traffig awyr - Goleuadau cydymffurfiol ar y brif redfa - Gorsaf feterological newydd - Radar ac offer ategol arall - Dull GNSS 1b – Cyfleusterau ategol, megis llety ar gyfer gweithwyr ymgyrch, arlwyo a chyfleusterau hamdden 2 – I'w gadarnhau wrth i ofynion y llywodraeth ar

	gyfer darpar weithredwyr porth gofod ddod yn glir 3 – Gwell ffordd fynediad i'r safle, yn osgoi Llanbedr i'r gorllewin (rhwng yr A496 a'r Rheilffordd) gyda'r rhan Ffordd Mochras rhwng y gyffordd newydd a chyffordd yr A496 ar agor i bob traffig.
Lleoliad y prosiect (Atodwch fap o'r lleoliad)	Gweler yr Atodiad
Pa ganiatâd sydd ei angen?	Caniatâd cynllunio
Caniatâd sydd eisoes wedi'i roi sy'n berthnasol i'r prosiect	Caniatâd cynllunio wedi ei sicrhau eisoes ar gyfer defnyddio'r safle ar gyfer Profi a Gwerthuso (R & D) RPAS. Cais cynllunio ar gyfer elfen 3 i gael ei gyflwyno erbyn diwedd Chwefror 2017
Cyfranogiad y cyhoedd hyd yn hyn	Elfennau 1 a 2 wedi cael eu hamlinellu yn fyr i'r cyngor cymuned dros nifer o flynyddoedd, yn seiliedig ar ganlyniadau uwchgynllun safle a gomisiynwyd yn 2012 Elfen 3 uchod wedi cynnal Asesiad WelTAG llawn Mae pob elfen yn cael eu harchwilio gan Fwrdd Goruchwylio Llanbedr, sy'n cynnwys partneriaid strategol lleol yn cynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, AC lleol, a Chyngor Cymuned Mae'r safle yn rhan o Ardal Fenter Eryri, ac mae'r gwaith a wneir yno yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, a bwrdd o arbenigwyr y diwydiant sy'n atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith
Oes asesiad amgylcheddol wedi'i baratoi? (Oes/ Nac oes)	Elfennau 1 a 2 – Na Elfen 3 – Oes
Oes unrhyw ddynodiadau safle neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle?	Elfennau 1 a 2 (y safle ei hun) - Mae rhai rhannau o'r safle mewn parth llifogydd Mae'r safle wedi ei leoli o fewn y Parc Cenedlaethol Mae gan y safle Ardal Cadwraeth Arbennig, a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (er na ragwelir

	gwneud gwaith yn yr ardaloedd hyn) Rhannau o'r safle â dynodiad SoDdGA Amlen ddiogelwch o amgylch y safle i gael ei sicrhau ar dir trydydd parti Elfennau 2 a 3 (ffordd fynediad) - Mae'r holl ymchwiliadau gofynnol a gwaith modelu wedi cael eu cwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn dderbyniol o ran archeoleg, bywyd gwyllt, llifogydd ayb.
Beth yw'r amserlen cyflwyno ar gyfer y prosiect?	1 – 2018-2022 2 – Llywodraeth y DU yn gweithio tuag at lansiad cyntaf o Borth Gofod y DU erbyn 2020 3 - Tachwedd 2017-Rhagfyr 2020
Sut fyddai'r prosiect yn cyfrannu at fodloni'r 7 nod llesiant?	Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y gwaith o ddatblygu Cymru fwy ffyniannus, gan ganiatáu datblygu cyflogaeth gynaliadwy o werth uchel mewn ardaloedd lle ar hyn o bryd mae'n perfformio'n wael iawn, yn dioddef o rai o'r cyflogau wythnosol isaf yn y DU. Gallai gwireddu datblygiad o'r fath hefyd gael effaith ddwys ar ddatblygu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae Meirionnydd yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, gyda 50.4% o'r boblogaeth yn byw eu bywydau bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg (14.6% yng Nghymru)[i] Fodd bynnag, mae'r rhanbarth yn prysur ddod yn ardal i bobl symud iddi i ymddeol, ac, i'r gwrthwyneb, mae pobl ifanc talentog yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd. Mae 27% o drigolion bellach dros 65 mlwydd oed (Cymru = 20%). Mae'r ffigwr hwn wedi codi o 22% ers 2002[ii] Rhwng 2001 a 2011, roedd 9.1% yn llai o bobl yn y rhanbarth wedi eu cofnodi fel rhai a oedd ag <u>unrhyw</u> sgiliau Cymraeg [iii], tuedd na ellir ei dadwneud heb economi gref gyda swyddi gwerth uchel.

Pam mae'r prosiect o arwyddocâd cenedlaethol?	Mae Strategaeth Gofod Cymru yn nodi y rhagwelir y bydd Systemau Di-griw Awyr byd eang o werth $1 biliwn dros y ddegawd nesaf. Nododd Llywodraeth Cymru hyn fel rhan allweddol o allu Gweithgynhyrchu Uwch y wlad, ac mae wedi nodi Llanbedr yn benodol fel canolfan allweddol ar ei "Bwa Arloesi" o gyfleusterau RPAS a sefydliadau academaidd. (http://space.aerospacewalesforum.com/strategy)
Ydych chi'n cytuno i'ch prosiect ac unrhyw wybodaeth ategol gael eu cyhoeddi? (Dim ond prosiectau a gwybodaeth y gellir eu gwneud yn gyhoeddus fyddyn hysbysu datblygiad y FfDC.)	Ydym

[i] Cyfrifiad 2011
[ii] Amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol yr ONS
[iii] Ystadegau Allweddol, Cyfrifiad 2011 Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffurflen Cyflwyno Prosiectau – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	
Enw	Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd
Manylion Cyswllt	Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd
Dyddiad	
Diddordeb yn y safle	Y cyfle i greu cyflogaeth o ansawdd uchel ar un o safleoedd mwyaf arwyddocaol y Sir
Manylion perchennog y tir	Safle o fewn perchnogaeth Llywodraeth DU, trwy law'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA).
Teitl y prosiect	Codi adweithydd modiwlar bychan (SMR) niwclear ar Safle Trawsfynydd
Crynodeb o'r prosiect	Paratoi'r Safle i dderbyn adweithydd modiwlar bychan
Lleoliad y prosiect (Atodwch fap o'r lleoliad)	
Pa ganiatâd sydd ei angen?	Caniatâd Cynllunio Dynodiad y safle fel safle niwclear addas ar gyfer adweithydd newydd Caniatâd penodol gan yr ONR a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran priodoldeb y Safle mewn cyd-destun a dyluniad yr adweithydd penodol.
Caniatâd sydd eisoes wedi'i roi sy'n berthnasol i'r prosiect	Dim
Cyfranogiad y cyhoedd hyd yn hyn	Rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd ynglyn a'r gwaith i edrych ar defnyddiau posibl ar gyfer y Safle wrth i'r gwaith dadgomisiynu presennol dod i ben. Bellach mae'r gwybodaeth honno yn cynnwys dymuniad partneriaid allweddol i ddenu adweithydd bychan i'r Safle Mae'r gwaith i edrych ar ddatblygiad y Safle yn cael ei graffu gan Bwrdd Trosolwg Trawsfynydd - partneriaid strategol lleol yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, yr AC lleol a'r Cyngor Cymuned, yn ogystal a'r NDA, a Magnox fel y

	corff sydd yn gyfrifol am y gwaith dadgomisiynu presennol. Mae'r safle yn rhan o Ardal Fenter Eryri, ac mae'r gwaith i ymchwilio i'w ddatblygiad yn cael ei wneud trwy cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru, a bwrdd o arbenigwyr diwydiannol sydd yn atebol i'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith Yn 2016, cynhaliwyd Archwiliad y Pwyllgor Cymreig i Ddyfodol Niwclear yng Nghymru, lle derbyniwyd cefnogaeth llethol i leoli AMB yn Nhrawsfynydd[i]
Oes asesiad amgylcheddol wedi'i baratoi? (Oes/ Nac oes)	Na
Oes unrhyw ddynodiadau safle neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle?	Mi fydd tir sydd o fewn y "safle niwclear trwyddedig" (tua 15 Ha) yn destun rheoleiddio gan yr ONR, ac ymhellach i'r dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru am cyfnod hir i ddod Does yna ddim Safleoedd Dynodedig na Safleoedd Gwarchodedig o fewn, na chyfagos i'r Safle Mae'r Safle o fewn Parc Cenedlaethol Eryri
Beth yw'r amserlen cyflwyno ar gyfer y prosiect?	I'w gadarnhau – 2020-2030
Sut fyddai'r prosiect yn cyfrannu at fodloni'r 7 nod llesiant?	Byd y prosiect hwn yn cyfrannu tuag at y datblygiad o Gymru Mwy Llewyrchus, gan ganiatáu gyflogaeth gwerth uchel mewn ardal sydd ar hyn o bryd yn perfformio yn wael iawn, ac yn dioddef o rai o'r cyflogau wythnosol isaf yn y DU. Gallai gwireddu datblygiad fel hwn gael effaith ddofn ar ddatblygiad Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu. Mae Meirionnydd yn gadarnle'r iaith Gymraeg, gyda 50.4% o'r boblogaeth yn byw eu bywyd dyddiol drwy'r iaith Gymraeg (14.6% yng Nghymru)[ii] Fodd bynnag, mae'r rhanbarth yn brysur yn dod yn ardal ble mae pobl yn symud i ymddeol, ac i'r

	gwrthwyneb, mae pobl ifanc talentog yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd. Mae 27% o'r trigolion bellach dros 65 mlwydd oed (Cymru = 20%). Mae'r ffigwr hwn wedi codi o 22% ers 2012.[iii] Rhwng 2001 a 2011, bu i 9.1% yn llai o bobl y rhanbarth gael eu cofnodi fel meddu ar unrhyw sgiliau iaith Cymraeg[iv], tuedd y byddai economi gadarn yn unig, gyda swyddi gwerth uchel yn medru gwrthdroi.
Pam mae'r prosiect o arwyddocâd cenedlaethol?	Mae datblygiad AMB yn y DU yn uchelgais Llywodraeth DU, gyda £250m wedi'i glustnodi ar gyfer ei ddatblygiad (a technolegau niwclear ehangach)[v] Mae hyn yn gyfle o arwyddocâd i'r DU gyfan, sydd yn dod a chyfleoedd ymchwil a datblygu, cynhyrchu (modiwlau'r adweithydd ei hun), a chynhyrchu trydan. Ein uchelgais yw ddenu adweithydd modiwlar bychain gyntaf y DU i'r Safle er mwyn sicrhau'r holl arbenigedd a daw yn ei sgil. Mae sefydliadau megis yr ETI[vi], ac ImechE yn cefnogi Safle Trawsfynydd fel lleoliad i AMB gyntaf y DU.
Ydych chi'n cytuno i'ch prosiect ac unrhyw wybodaeth ategol gael eu cyhoeddi?	Ydw

[i] https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/welsh-affairs-committee/inquiries/parliament-2015/nuclear-power-15-16/
[ii] 2011 Census
[iii] ONS small area experimental population estimates
[iv] 2011 Census Key Statistics, Office for National Statistics
[v] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/479749/52229_Blue_Book_PU1865_Web_Accessible.pdf; http://www.world-nuclear-news.org/NP-UK-sets-aside-funds-for-ambitious-nuclear-research-and-development-program-26111501.html
[vi] https://www.imeche.org/policy-and-press/reports/detail/small-modular-reactors-a-uk-opportunity

Llanbedr Airfield - Site Boundary

Promap

For illustrative purposes only.

snowdonia ENTERPRISE ZONE trawsfynydd
Maentwrog Hydro Electric Power Station
Phase I
Railway (to Conwy Valley Railway)
National Grid Substation
(400 Kw Connection)
Nuclear Licensed Site
Phase II
Phase III
(Released post second phase of decommissioning)
Land to be retained by NDA until final site clearance
Rail head
A470
Former sports and social club
Training and induction centre
Trawsfynydd Lake
Bangor
A55
A487
Trawsfynydd
A470
Aberystwyth
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011 Arolwg Ordnans 100023387
Cyngor Gwynedd Council

Ffurflen Cyflwyno Prosiectau – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	
Enw	Cyngor Gwynedd
Manylion Cyswllt	Nia Haf Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio
Dyddiad	
Diddordeb yn y safle	Cyfle i wella cysylltedd rhwng Gogledd a De Cymru yn ogystal a gwella cysylltedd rhwng aneddleoedd allweddol a'r A55. Mae'n un o'r prosiectau strategol sydd wedi cael eu hadnabod er mwyn cefnogi'r gwaith i wireddu Strategaeth Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).
Manylion perchennog y tir	Amrywiol
Teitl y prosiect	Gwella cysylltedd – A487 (gweler y daflen sylwadau cyffredinol hefyd)
Crynodeb o'r prosiect	Gwelliannau i'r A487 – Ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd & gwella'r A487 presennol i wella cyffyrdd presennol.
Lleoliad y prosiect (Atodwch fap o'r lleoliad)	Gweler yr atodiad
Pa ganiatâd sydd ei angen?	Gorchmynion drafft wedi cael eu cyhoeddi
Caniatâd sydd eisoes wedi'i roi sy'n berthnasol i'r prosiect	
Cyfranogiad y cyhoedd hyd yn hyn	Ymarfer ymgynghori cyhoeddus 2010 - 2011
Oes asesiad amgylcheddol wedi'i baratoi? (Oes/ Nac oes)	Oes (Awst 2016)
Oes unrhyw ddynodiadau safle neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle?	Oes, ac mae mesurau lliniaru wedi cael eu hadnabod mewn ymgynghoriad â chyrff amgylcheddol statudol.
Beth yw'r amserlen cyflwyno ar gyfer y prosiect?	Cwblhau'r ffordd osgoi diwedd 2019 a chwblhau'r gwelliannau i gyffyrdd presennol erbyn canol 2020.
Sut fyddai'r prosiect yn cyfrannu at fodloni'r 7 nod llesiant?	Bydd gwireddu'r prosiect yn gwella cysylltiadau strategol a datblygu choridorau twf i helpu'r economi ffynnu. Mae hyn yn hanfodol i hyrwyddo datblygiad sy'n galluogi pobl i gyflawni

	eu potensial a chael cymunedau chydlynus.
Pam mae'r prosiect o arwyddocâd cenedlaethol?	Mae'n un o'r prosiectau gwella'r rhwydwaith ffyrdd sydd yng Nghynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
Ydych chi'n cytuno i'ch prosiect ac unrhyw wybodaeth ategol gael eu cyhoeddi? **(Dim on prosiectau a gwybodaeth y gellir eu cyhoeddi ail gyfrannu at ddatblygiad y FfDC)**	Ydw

Ffordd Osgoi Caernarfon Bypass Route